

Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 28 Gorffennaf 2015

Presennol: A. Jones (Cadeirydd), J. Roberts, G. C. Jones, A. Mummery, H. Huws, G. Parry, Meirion Jones, B. Jones, D. Williams, Meryn Jones, J. Evans (Cyngorwr Sirol)
Dafydd Owen (clerc)

1. Ymddiheuriadau: E. Parry, A. Williams, David James

2. Datganiadau Diddordeb.

2.1 Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Cyfrifon mis Gorffennaf 2015

3.1 J. Roberts yn cynnig, A. Mummery yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

3.2 A. Mummery yn cynnig, J. Roberts yn eilio cytuno rhoi benthyciad o £1,100 o gyfrif y Cyngor Bro i gyfrif y Neuadd Goffa i gyfarfod ac anfoneb trydan y clwb snwcer. Y swm i'w ad-dalu unwaith fydd cyfrif y Neuadd Goffa mewn sefyllfa i'w fforddio. Hefyd cytunwyd gan fod dim Cyfarfod y Cyngor Bro ym Mis Awst, bod A. Jones ac A. Mummery yn arwyddo'r taliadau sydd eu hangen.

4. Materion y Cyngor Sir

4.1 Meirion Jones yn cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu gostwng oed derbyn Ysgol Llanfairpwll. Mi fydd yr Ysgol Feithrin yn gweithredu o dan yr Ysgol Gynradd o Fedi ymlaen.

4.2 Meirion Jones yn cadarnhau fod Cyfarfod arbennig wedi'i alw ar 3ydd Medi 2015 i drafod y broses Arfarnu Swyddi.

5. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod 30 Mehefin 2015

5.1 J. Roberts yn cynnig, Meirion Jones yn eilio. Derbyniwyd fel y rhai cywir.

6. Materion yn codi

6.1 Twr Marcwis - e-bost wedi'i dderbyn gan Asiant Stad Plas Newydd. Cadarnhau od y twr wedi'i gau am resymau iechyd a diogelwch, ac maent am gynna arolygon pellach ar yr adeilad. Hefyd yn cadarnhau fod pob cam yn cael ei gymryd i geisio cael y twr i ail-agor. Cytunwyd rhoi gwahoddiad i'r asiant ddod i gyfarfod y Cyngor Bro ar ôl i'r arolygiadau cael eu cynnal i roi diweddariad.

6.2 Plac ar dy Kyffin Williams -Asiant y Stad Plas Newydd wedi cadarnhau fod dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, yn amodol ar gytuno ei leoliad a'i ddyluniad.

6.3 Paentio'r Neuadd Goffa - E. Parry wedi cwblhau'r gwaith a chlirio'r safle yn allanol, a diolchwyd y Cyngor Bro iddo am weithredu.

6.4 Grid Cenedlaethol - H. Huws yn nodi fod llythyrau deiseb wedi'i argraffu ac yn barod i'w dosbarthu. Cyfarfod i'w drefnu ym Mis Medi i drefnu rhannu'r cyfrifoldeb o'i dosbarthu. Diolchwyd i Hana am ei gwaith hyd yn hyn.

6.5 Bwrdd Iechyd - Dim diweddariad, A. Mummery am ysgrifennu at y Bwrdd Iechyd i ofyn am ymateb.

6.6 Llwybr beicio - H. Huws am baratoi adroddiad er mwyn hysbysu Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

6.7 Cysgodfa Bws a Swyddfa'r Cyngor Bro - Nodwyd fod y gwaith wedi'i gychwyn ar y swyddfa a bod y gysgodfa bws wedi cwblhau.

6.8 Cyflenwad trydan y Clwb Snwcer - Clwb snwcer am alw cyfarfod i benodi swyddogion newydd ac yno am gyfarfod gyda'r Cyngor Bro gyda'i bwriad am y dyfodol.

6.9 Maes Amlbwrpas - Clerc am baratoi hysbyseb erbyn canol Awst ar gyfer Papur Menai Mis Medi i weld os oes galw am ddefnyddio'r safle.

6.10 Mainc Newydd - Mainc wedi'i archebu ac yn disgwyl iddi gael ei danfon.

6.11 Gwlâu Blodau - Nodwyd fod y garddwraig wedi cychwyn y gwaith i gynnal y gwllâu, ond does dim anfoneb wedi'i dderbyn am y gwaith hyd yn hyn.

7. Penodi dyddiadau ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Cyllid, Cyfarfod Clwb Snwcer a Dosbarthu llythyrau'r ymgyrch gwrth peilonau.

7.1 Cytunwyd i gynnal y cyfarfodydd ar y dyddiadau ac amseroedd canlynol:

Cyfarfod Clwb Snwcer - 6:30yh ar 1af Medi 2015

Dosbarthu taflenni Peilonau - 7:00yh ar 1af Medi 2015

Cyfarfod Cyllid - 7:45yh 1af Medi 2015

8. Projector i'r Cyngor Bro

8.1 Nodwyd gan Merion Jones ei fod am holi ymhellach gyda'r Cyngor Sir i weld sut y maent am gyfleu gwybodaeth am geisiadau cynllunio gan maent i weld ddim yn gyrru ar bapur. Clerc i gael prisiau am projector a screen ar gyfer cyfarfod Medi 2015.

9. Ceisiadau Cynllunio

9.1 31C426 - Cais llawn i ddymchwel yr adeilad presennol a chodi annedd yn The Old Telephone Exchange, Llanfairpwll - Dim sylw

10. Gohebiaeth

10.1 Cyngor Sir - Penderfyniadau Cynllunio - Derbyn y wybodaeth

10.2 Un Llais Cymru - Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Môn - G. C. Jones wedi mynychu. Nodwyd fod R. Evans wedi dod i ben ei dymor fel cadeirydd. Hefyd nodwyd fod canllawiau am eu dosbarthu i Gyngorau Cymuned ar sut i ddefnyddio'r we a diogelu data, a hyfforddiant ar y materion.

10.3 Cyngor Sir Ynys Môn - Sgip ailgylchu - Derbyn y wybodaeth

10.4 Cyngor Sir Ynys Môn - Grantiau Cyfalaf i Gyfleusterau Cymunedol 2015/16 - Cytunwyd i yrru llythyr yn ôl i'r Cyngor Sir yn gofyn am y rheswm y cafodd y cais ei wrthod, a gofyn a oes modd rhoi cais uniongyrchol i mewn i'r ymddiriedolaeth gan fod ni'n credu fod ganom gais da.

10.5 Cyngor Sir Ynys Môn - Cwblhau adolygiad Rent Maes Parcio Ty'n Rhos - Derbyn y wybodaeth a chytuno i'r telerau.

10.6 Horizon - Cyhoeddi digwyddiadau'r Haf - Derbyn y wybodaeth

10.7 Zorb Snowdonia North Wales - Cais am ganolfan 'Zorbing' - A. Mummery wedi trafod gyda nhw ac maent yn awyddus i drefnu cyd-gyfarfod gyda Chyngor Tref Porthaethwy. A. Mummery am fynychu ac adrodd yn ôl os mae yna gyfarfod am ei gynnal.

Dyddiad Cyfarfod Nesaf - Nos Fawrth 29 Medi 2015 am 7.00yh yn y Neuadd Goffa

Arwyddwyd..... (Cadeirydd)Dyddiad